CYMDEITHAS TAI CLWYD

21. POLISI ANIFEILIAID ANWES

Gwreiddiol	19 Medi 2002
Adolygiad Diweddaraf	Gorffennaf 2007
Mabwysiadwyd	Gorffennaf 2007
Gweithredwyd	Gorffennaf 2007
Adolygiad Nesaf	Gorffennaf 2010

1. CYFLWYNIAD

Mae Cymdeithas Tai Clwyd yn cydnabod bod anifeiliaid anwes a ofelir amdanynt yn dda ac yn gyfrifol yn gallu bod yn gaffaeliad i gymuned.

Fodd bynnag, oherwydd natur a lleoliad rhai o'n heiddo (yn fwy penodol fflatiau gyda mynediad cyfunol), nid yw'n bosib caniatáu cadw pob math o anifeiliaid anwes.

2. CYTUNDEB TENANTIAETH

Anifeiliaid anwes **3.18** Ymatal rhag cadw unrhyw anifail anwes yn yr Eiddo heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Gymdeithas, a chadw pob anifail anwes, y caniateir iddynt fod yn yr Eiddo, o dan reolaeth. Gall y Gymdeithas wrthod caniatâd neu dynnu caniatâd yn ôl unrhyw adeg os achosir, neu os gellir achosi, niwsans i unrhyw unigolyn.

Golyga hyn bod perchennog yr anifail anwes yn gorfod sicrhau nad yw eu anifail(iaid) anwes yn achosi niwsans i eraill, a bod caniatáu iddynt fod yn torri un o amodau'r cytundeb tenantiaid.

3. DEDDFAU PERTHNASOL

Deddf Cŵn Peryglus 1991
Mae'r ddeddf hon yn gwahardd perchnogion rhag cadw'r 4 math o gi a restrir heb Dystysgrif Eithriad.

Deddf Lles Anifeiliaid 2006
Ers 27 Mawrth 2007, mae'n rhaid i berchnogion anifeiliaid anwes sicrhau eu bod yn ystyried lles eu hanifeiliaid.

Deddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glan 2005
Mewn rhai ardaloedd cyhoeddus penodol, gall Awdurdodau Lleol orchymyn fod yn rhaid i wn gael eu cadw ar dennyn, neu fe ellir eu gwahardd. Hefyd, gellir gorfodi is-ddeddfau mewn perthynas â chŵn yn baeddu ar dir cyhoeddus.

Gorchymyn Rheoli Ci 1992
Mae'n rhaid i bob ci, tra mewn man cyhoeddus, wisgo coler sy'n arddangos enw a chyfeiriad y perchennog.

Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990
Mae gan yr Awdurdodau Lleol y pŵer i gymryd ci sydd ar grwydr a'i gadw am 7 niwrnod. Ar ôl 7 niwrnod, gallant ddod o hyd i gartref arall i'r ci, ei werthu, neu ei ddinistrio.

Deddf Anifeiliaid 1971
Os yw ci yn poenydio da byw, fe ellir ei saethu ac fe all y perchennog wynebu erlyniad.

Deddf Gwarchod Anifeiliaid 1911
Os canfyddir person yn euog o greulondeb neu esgeulustod fe all gael ei garcharu a/neu gael dirwy. O dan Ddeddf Gadael Anifeiliaid 1960 mae gadael anifail yn drosedd.

4. ACHOSION NAD OES ANGEN DERBYN CANIATÂD I GADW ANIFAIL ANWES

4.1 Nid oes angen caniatâd os yw'r tenant eisiau cadw un aderyn wedi ei gaethiwo, neu bysgod mewn un tanc o faint arferol.

5. ACHOSION NA CHANIATEIR O DAN UNRHYW AMOD

5.1 Ni chaniateir anifeiliaid gwyllt, anifeiliaid ffarm nac anifeiliaid mewn perygl.

5.2 O dan Deddf Cŵn Peryglus 1991, mae'n anghyfreithlon cadw'r bridiau canlynol oni bai fod Tystysgrif Eithriad wedi i ganiatáu ar y canlynol:-

- Teriar Pitbull,
- Dogo Argentino
- Japanese Tosa
- Fila Braziliero

(ac unrhyw fridiau eraill sydd yn cael eu rhestru mewn deddfwriaeth yn y dyfodol).

Oherwydd hyn, teimla'r Gymdeithas y byddai cais i gadw unrhyw un o'r bridiau uchod yn ormod o risg i'r cymdogion. Dylai cwynion am y cŵn yma fynd gerbron yr Heddlu, a all ddwyn erlyniad. Os yw swyddog o Gymdeithas Tai Clwyd yn amau bod ci o'r math peryglus yma yn cael ei gadw mewn eiddo'r Gymdeithas, rhaid sefydlu'r ffeithiau, ac os oes cadarnhad, cysylltir â'r Heddlu ar unwaith.

6. PRYD MAE ANGEN CANIATÂD

6.1. Rhaid derbyn caniatâd y Gymdeithas os yw'r tenant eisiau cadw ci, cath, mwy nag un aderyn wedi ei gaethiwo, anifeiliaid caeth eraill, ble mae anifail anwes blaenorol wedi marw ac yn cael ei ddisodli neu os yw'r perchnogion eisiau cadw rhagor o anifeiliaid anwes.

6.2. Rhaid i bob tenant dderbyn caniatâd i gadw anifail anwes, ond yn gyffredinol caniateir cadw anifail anwes mewn tþ, fflat gyda drws ffrynt annibynnol a byngalo, h.y. eiddo lle nad oes mynedfa gyfunol. Fodd bynnag, rhoddir caniatâd i gadw i'r henoed neu'r anabl sydd yn byw eu hunain mewn eiddo gyda mynedfa gyfunol i gadw un ci bach neu un gath yn unig. Ni chaniateir i'r anifail ymlwybro i fannau cyfunol.

6.3. Pan fo tenant angen ci tywys (guide dog), rhaid ystyried y canlynol :

- a oes angen toiled cemegol i'r ci – ble fyddai ei leoliad
- dymuniadau tenantiaid eraill mewn mannau cyfunol

O.N. cofier rhaid i RNIB a'r Guide Dogs for the Blind fod yn sicr bod y person yn addas i gael ci yn eu cartref.

7. PRYD NA CHANIATEIR CADW ANIFAIL ANWES

7.1. Pan fo anifail mewn perygl o ddioddefaint e.e. lle bod prawf o beidio â bwydo'n ddigonol neu fod anifail yn cael ei gadw mewn amodau tynn.

7.2. Bod cadw'r anifail yn debygol o arwain at dor-tenantiaeth.

7.3. Pan fo'r Gymdeithas yn ymwybodol bod anifail anwes arall wedi cael ei gam-drin.

7.4. Pan fo anifail anwes yn fawr, ac angen ymarfer cyson, ac nad oes gardd hunan gynwysedig.

7.5. Pan fo'r tenant yn byw mewn fflat anghenion cyffredinol sydd yn anaddas i gadw anifail anwes.

7.6. Pan fo tenant yn byw mewn eiddo ble mae'n debygol bydd caniatâd i'r anifail anwes ymarfer ar mannau cyfunol.

7.7 Pan fo anifeiliaid yn cael crwydro, neu nad ydynt yn cael goruchwyliaeth.

7.8 Pan fo anifail anwes yn cael baeddu ar fannau cyhoeddus a phan nad yw'r perchennog yn glanhau'r baeddu yn gyson.

7.9 Pan fo anifail anwes (gan amlaf cŵn) yn achosi niwsans sŵn. Rhoddir **un** cyfle iddynt gysylltu â milfeddyg, arbenigwr ar hyfforddi cŵn neu gwnsler ymddygiad anifeiliaid arbenigol i geisio gorchfygu'r broblem. Os yw'r niwsans sŵn yn parhau, disgwylir i'r perchennog ddarganfod ail gartref i'r anifail.

7.10 Pan fod anifail yn cael ei esgeuluso. Dylid adrodd y mater i'r RSPCA yn ogystal.

7.11 Ni chaniateir cadw anifail anwes ar falconi rhag i'r anifail ddisgyn neu gael ei grogi.

7.12 Ni chaniateir cadw unrhyw anifail ar dennyn fel dull o geisio rheoli anifail.

8. ANIFEILIAID ANWES MEWN FFLATIAU

Mae Cymdeithas Tai Clwyd yn credu mewn gwobrwyo tenantiaid cydwybodol sydd yn byw mewn fflatiau, drwy roi caniatâd iddynt gadw ci neu gath mewn fflat gyda mynediad cyfunol. Mae hyn yn amodol ar reolau tynn, ac os torrir yr amodau, cymerir y caniatâd oddi wrth y tenant, ble y disgwylir iddynt ffeindio cartref newydd i'r anifail anwes ar unwaith.

8.1 Amodau ar gadw ci

8.1.1 Sicrhau nad yw'r ci yn maeddu yn y mannau cyffredinol.

8.1.2 Sicrhau nad yw'r ci yn cyfarth yn rheolaidd ac am gyfnodau sylweddol. Ystyrir caniatáu ci i gyfarth yn ddi-baid am gyfnod o dros 15 munud yn 'gyfnod sylweddol'.

8.1.3 Rhaid bod yn ystyriol o denantiaid sydd yn byw o dan y fflat, felly, anogir tenantiaid i gael carped ar y llawr a pheidio â defnyddio lloriau wedi eu lamineiddio.

8.2 Amodau ar gadw cath

Bod y gath yn defnyddio 'hambwrdd ysbwriel' (litter tray) i faeddu a ddim yn debygol o faeddu mewn mannau a gerddi cyfunol. Disgwylir i'r tenant sicrhau eu bod yn cael gwared â'r ysbwriel yn gyson i osgoi arogleuon annymunol.

8.3 Caniateir cadw mamaliaid bychain, megis llygod mawr a bach, gerbil neu lygoden bochdew. Os ydynt yn cadw dau, rhaid sicrhau eu bod o'r un rhyw neu wedi ei dirywio (neutered). Ni chaniateir cadw mochyn cwta mewn fflat. Mae modd cadw cwningen mewn fflat os yw'n 'house trained'. Ni chaniateir mwy na dau. Ni chaniateir mwy na 2 mamal bychan mewn un fflat. Ni chaniateir i'r anifeiliaid fagu.

9. TAI Â CHEFNOGAETH

Cydnabyddir bod anifeiliaid anwes yn gallu chwarae rôl bwysig iawn o ddarparu cyfeillgarwch a chreu diddordeb a ffocws i unigolion. Rhaid cofio am y canlynol wrth ystyried cais gan denant Tai â Chefnogaeth:

- Statws yr anifail - pwy sydd yn berchen arno? Rhaid darganfod hyn ar y cychwyn i osgoi dadleuon dros gostau gofalu ac ati.

- Os yw'r anifail anwes yn cael ei rannu, pwy sydd am fod yn gyfrifol am ei drefn dyddiol, anghenion milfeddygol ac ati? (Gan amlaf aelod o staff yr eiddo).

- Os mai tenant yw'r perchennog, beth fydd yn digwydd os byddant yn methu gofalu amdano?

- Dylent ystyried yswirio'r anifail at gyfer costau gofal.

- A yw'r lleoliad yn addas? Os mai cais i gadw ci ydyw, a oes gardd addas ac a yw wedi ei ffensio i mewn. Lle bydd yr anifail yn cael ei gadw? Pwy fyddai'n gyfrifol am sicrhau bod yr anifail (os mai ci ydyw) yn cael ymarfer cyson?

Gweler gweddill amodau cadw anifail anwes mewn fflat wrth ddod i benderfyniad.

10. BETH DDIGWYDDIR OS TORRIR YR AMODAU

10.1 Os yw'r Gymdeithas yn derbyn cwyn am anifail, bydd y Swyddog Lletya yn sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i gywiro'r broblem ac i leihau'r niwsans, drwy gydweithio â'r warden cŵn, ac Adran Iechyd yr Amgylchedd.

10.2 Pan fo cadw anifeiliaid anwes yn torri Cytundeb, bydd Cymdeithas Tai Clwyd yn cymryd camau yn erbyn y tenant fel a ganlyn :

- ymweld a chyfweld yr achwynwr a'r un a gwynir amdano i ddarganfod y ffeithiau ac i sicrhau bod y niwsans yn darfod. Anfonir llythyr at y tenant yn nodi'r amodau.
- cysylltu ag Adran Iechyd yr Amgylchedd os yw'r niwsans oherwydd baw anifail neu sŵn.
- cysylltu â warden cŵn os nad yw'r anifail dan reolaeth.
- cysylltu â'r RSPCA os oes prawf neu amheuon bod yr anifail yn cael ei gam-drin.
- os yw'r anifail anwes yn cael achosi niwsans gyda'r tenant yn ei gadw heb ganiatâd, yna, bydd y Gymdeithas yn gofyn i'r perchennog ail gartrefu'r anifail.

- os yw'r anifail anwes yn achosi niwsans gyda'r tenant wedi derbyn caniatâd i'w gadw, byddant yn derbyn llythyr o rybudd iddynt gadw'r anifail dan reolaeth. Os yw'r sefyllfa yn dwysáu neu fod cwynion niwsans cyson, bydd disgwyl i'r tenant ail gartrefu'r anifail oddi fewn 14 niwrnod.
- os yw'r anifail anwes yn difrodi'r eiddo, cyfrifoldeb y tenant yw atgyweirio'r difrod.
- os nad yw'r broblem yn gwella ar ôl dilyn yr uchod fel mater o gam olaf gall y Gymdeithas gyflwyno Rhybudd Meddiant dros dorri amodau'r denantiaeth (mae'n anodd cael meddiant am niwsans oherwydd anifail anwes).
- Mae Deddf Amgylcheddol wedi dod i rym yn Ebrill 2006 yn Lloegr, ac rydym yn parhau i ddisgwyl arweiniad gan y Cynulliad. Mae'r system newydd yn fwy syml, a fydd yn galluogi Awdurdodau Lleol a chynghorau cymuned i ddelio gyda baw cŵn, diarddel (ban) cŵn o ardaloedd penodol, disgwyl i gŵn fod ar dywys a chyfyngu'r nifer o gŵn caiff eu tywys ar un tro.

11. ANIFEILIAID ANWES MEWN TAI GWAG

Gall sefyllfa godi ble mae tenantiaid wedi gadael anifail ar ôl i'r tenantiaid adael yr eiddo neu gael eu troi allan o'u cartref. Dilynir y camau isod:

Troi Allan (Eviction)

Mae pob anifail anwes sydd wedi eu gadael gan y tenant yn cael eu hystyried fel 'eiddo' dan Ddeddf Gadael Anifeiliaid heb Awdurdod 1960 (Abandoment of Animals Act 1960). Cyfrifoldeb y landlord yw cynnal yr eiddo tan eu bod wedi eu hawlio neu wedi eu gwerthu (i hawlio costau) neu eu rhoi i ffwrdd, os nad oes gwerth i'r eiddo. Rhoir 7 diwrnod i'r cyn denant hawlio'r eiddo, bydd yr anifail anwes yn cael ei drosglwyddo i'r ganolfan RSPCA lleol (0870 3335 999 - www.rspca.org.uk).

Yn ystod y 7 diwrnod cyntaf bydd modd i'r cyn denant wneud trefniant i hebrwng yr anifail o'r ganolfan. Os ystyrir yr anifail yn werthfawr - trefnir bod yr anifail yn cael ei werthu a defnyddir yr arian yn erbyn costau gofalu am yr anifail am y 7 niwrnod cyntaf (rhaid trefnu llety addas ar eu cyfer). Wrth droi tenantiaid o'u cartrefi rhaid ystyried y canlynol:

- Ceisio darganfod presenoldeb anifail anwes.
- Sicrhau bod perchennog yr anifail anwes yn ymwybodol ei fod/bod yn gyfreithiol gyfrifol am yr anifail a'u bod yn ymwybodol o ganlyniad gadael yr anifail.
- Rhaid rhoi arweiniad i'r beili na ellir gadael anifail anwes yn y tŷ neu ar dir yr eiddo heb yr oruchwyliaeth - (dilynir y drefn uchod).
- Os yw'r Swyddog Lletya yn ymwybodol bod anifail anwes yn yr eiddo, dylid dod â'r mater i sylw'r tenant wrth lythyru ynglŷn â'r troi allan.

Mae posib i Swyddog RSPCA fod ar safle wrth droi tenant allan o'i gartref. Dylid trefnu bod awdurdod ysgrifenedig yn cael ei roi (gan y tenant) i'r RSPCA fel bod gofal am yr anifail yn cael ei drosglwyddo i'r gymdeithas (RSPCA). Nid yw hyn bob amser yn bosibl.

Gadael heb Awdurdod (Abandonment)

Os yw Cymdeithas Tai Clwyd yn credu bod y tenant wedi gadael eiddo sydd gydag anifeiliaid anwes yn yr eiddo, ac nad ydynt yn bwriadu dychwelyd (gweler Polisi Gadael heb Awdurdod), dylid cysylltu â'r RSPCA. Byddant hwy yn ystyried cymryd achos yn unol â Deddf Anifeiliaid wedi eu Gadael 1960.

2004

Annwyl

PAR: CANIATAD I GADW (math a nifer o anifail) YN (cyfeiriad)

Rydym yn cydnabod derbyn eich llythyr yn gofyn am ganiatâd i gadw (math a nifer o anifail). Yr wyf yn falch o'ch hysbysu fod y Gymdeithas yn caniatáu i chi gadw'r anifail(aid) uchod.

Rydych hefyd i gytuno i'r amodau canlynol:

- Ni ddylai'r anifail(aid) anwes achosi niwsans i gymdogion, ac os derbynnir cwyn, gall y Gymdeithas ofyn ichi ail gartrefu'r anifail anwes.
- Os caniateir i'r anifail anwes achosi difrod i'r eiddo, byddwch chi yn gyfrifol am unrhyw gostau trwsio.
- Dylai pob anifail anwes gael ei gadw o dan reolaeth.

Os yw unrhyw un o'r amodau uchod yn cael eu torri, byddwn yn debygol o ofyn ichi i ail gartrefu eich anifail anwes.

Cyfeirir y caniatâd hwn at yr anifail anwes uchod yn unig.

Yn gywir